

# ARWEINYDD RHAGLENNI

**Dyddiad cau: ddydd Llun 12 Ionawr 2026**

belong
THE COHESION AND INTEGRATION NETWORK

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Croeso

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â **Belong – Y Rhwydwaith Cydlyniant ac Integreiddio** – fel **Arweinydd Rhaglenni.** Dyma gyfle cyffrous i gyflwyno rhaglenni arloesol sy'n cryfhau cydlyniant cymdeithasol mewn cymunedau ledled y DU. Rydym yn chwilio am rywun sy'n ffynnu mewn amgylcheddau deinamig ac sy'n frwd dros greu newid parhaol.

Mae gennym broffil cenedlaethol cryfach, strategaeth feiddgar ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, ac Uwch Dîm Arwain uchelgeisiol, felly mae'n adeg eithriadol i ymuno â ni. Wrth i Belong ddechrau ar y cam nesaf yn nhwf y rhwydwaith, rydym ni'n benderfynol o ddyfnhau ein heffaith, cryfhau ein gwydnwch, a hyrwyddo cydlyniant ac integreiddio ar raddfa fawr.

Bydd yr Arweinydd Rhaglenni newydd yn chwarae rhan ganolog yn y daith hon, gan arwain y gwaith o ddarparu rhaglenni Belong mewn lleoedd penodol ar adeg o dwf ac arloesi, a rhoi rhaglenni lleol o ansawdd uchel ar waith, gan hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, y Prif Swyddog Gweithredol a phartneriaid allanol i sicrhau bod ein rhaglenni'n effeithiol, yn gynhwysol ac yn cyd-fynd â'n cenhadaeth i alluogi cymunedau i sbarduno newid parhaol. Mae'r swydd yma'n ddelfrydol i rywun sy'n ffynnu mewn amgylcheddau deinamig, sy'n mwynhau gweithio'n gydweithredol, ac sy'n frwd dros greu newid parhaol mewn cymunedau.

Rydym yn chwilio am arweinydd rhaglenni strategol a chreadigol sydd â hanes cryf o gyflawni mentrau mewn lleoedd penodol, gan gael effaith barhaol. Byddwch yn hyderus wrth reoli prosiectau cymhleth, meithrin perthnasoedd a hwyluso dulliau cyfranogol. Byddwch yn drefnus iawn, yn canolbwyntio ar weithredu ac yn gallu troi gwybodaeth yn atebion ymarferol. Bydd gennych ymrwymiad dwfn i werthoedd Belong a byddwch yn edrych ymlaen at gyfrannu at ein cenhadaeth o greu cymdeithas sy'n fwy unedig ac yn llai rhanedig. Os mai chi yw'r person yma, a'ch bod chi'n edrych ymlaen at helpu i siapio dyfodol Belong a sbarduno newid cadarnhaol ledled y DU, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Kelly Fowler**
Prif Swyddog Gweithredol, Belong



# Gwybodaeth am Belong

**Belong yw prif rwydwaith nid-er-elw y Deyrnas Unedig ym maes cydlyniant cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda chymunedau, awdurdodau lleol, a phartneriaid cenedlaethol i gryfhau ymddiriedaeth, yr ymdeimlad o berthyn, a gwydnwch drwy raglenni arloesol a gwaith ymchwil a dylanwadu ar bolisïau. Mae ein haelodaeth yn tyfu ac mae'n cynnwys awdurdodau lleol, elusennau, cymdeithas sifil, a busnes.**

## Dyma'r hyn y mae Belong yn ei wneud:

- PGwaith cydlyniant a gwaith rhyngddiwylliannol mewn lleoedd penodol gydag awdurdodau lleol a chymunedau.
- Gwaith ymchwil a pholisi i gynyddu'r sylfaen o dystiolaeth a dylanwadu ar newid cenedlaethol.
- Hyfforddiant, ymgynghoriaeth, a datblygu arweinyddiaeth.
- Rhannu gwybodaeth, rhwydweithiau, digwyddiadau dysgu, ac arwain agweddau.

**Rydym yn gydweithredol, yn cael ein harwain gan dystiolaeth, ac wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant.**



# Ein Tîm

Yn Belong, yr hyn sy'n uno ein tîm yw ein hymrwymiad ar y cyd i greu cymdeithas sy'n fwy cynhwysol a chysylltiedig. Rydym yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd sydd â chefndir mewn ymchwil, ymgysylltu â'r gymuned, cyfathrebu, gwaith hwyluso, a pholisi. Rydym yn cydweithio ag awdurdodau lleol, sefydliadau cymdeithas sifil, sefydliadau academaidd, a phartneriaid cenedlaethol i gryfhau cydlyniant cymdeithasol ledled y DU.

# Buddion

- 30 diwrnod o wyliau y flwyddyn (yn ogystal â gwyliau banc)
- Gweithio'n hybrid
- Tâl salwch uwch
- Tâl mamolaeth a thadolaeth uwch



# Gwybodaeth am y Swydd

**Teitl y swydd:** Arweinydd Rhaglenni
**Oriau gwaith:** Llawn-amser
**Lleoliad:** Ledled y DU gan deithio'n rheolaidd
**Math o gontract:** Parhaol
**Cyflog:** £55,000–£60,000

AFel Arweinydd Rhaglenni, byddwch yn dylunio ac yn darparu rhaglenni o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ymateb i anghenion lleol ac yn meithrin cynhwysiant. Byddwch yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i gyd-greu strategaethau ac atebion a sicrhau darpariaeth effeithiol.

## Prif Gyfrifoldebau

### Dylunio a Darparu Rhaglenni

- Arwain y gwaith o ddarparu rhaglenni lleol Belong, gan sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ymateb i anghenion y gymuned ac yn newid systemau'n lleol
- Dylunio a hwyluso gweithdai, sesiynau hyfforddi ac ymgysylltiad â'r gymuned
- Dulliau ymchwil cryf gan gynnwys ymchwil desg, ffynonellau agored, arolygon a’r cyfryngau cymdeithasol
- Hwyluso gwaith cyd-gynhyrchu sy'n rhoi gwerth ar degwch, cynhwysiant, a meithrin consensws
- Rheoli cyllidebau, amserlenni ac adnoddau rhaglenni i sicrhau eu bod yn cael eu darparu'n effeithiol
- Monitro a gwerthuso canlyniadau rhaglenni, gan gynhyrchu adroddiadau a gwybodaeth ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol
- Cydweithio â chydweithwyr eraill yn Belong i gynyddu effaith rhaglenni

## Prif Gyfrifoldebau

### Ymgysylltu â Phartneriaid a Rhanddeiliaid

- Meithrin a chynnal perthynas gref ag awdurdodau lleol, sefydliadau, cyllidwyr a chomisiynwyr
- Cyd-ddylunio dulliau gweithredu rhaglenni gyda phartneriaid, gan sicrhau cydberchnogaeth a pherthnasedd
- Cynrychioli Belong mewn digwyddiadau, cyfarfodydd a fforymau allanol i hyrwyddo ein gwaith a chreu cyfleoedd newydd

### Datblygiad Strategol

- Cyfrannu at strategaeth sefydliadol Belong drwy arloesi mewn rhaglenni a dysgu
- Cefnogi'r gwaith datblygu busnes drwy ganfod cyfleoedd, datblygu cynigion a chyfrannu at geisiadau
- Rhannu dysg a'r arferion gorau ar draws y sefydliad er mwyn llywio gwaith datblygu rhaglenni yn y dyfodol
- Defnyddio arferion meddwl drwy systemau i ddeall natur ryng-gysylltiedig ecosystemau cymunedol, polisi a gwasanaeth

### Rheoli Gwaith Cynllunio a Darparu a Rheoli Risgiau

- Profiad amlwg o reoli prosiectau, gan gynnwys cydlynu deilliannau prosiectau a chadw golwg ar gyllidebau ac amserlenni
- Sgiliau asesu risgiau a mapio risgiau a chyfleoedd

Sylwch: Rhestr enghreifftiol yw hon, ac nid yw'n cynnwys popeth. Mae'n bosibl y bydd gofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol yn unol â'r swydd.

# Amdanoch Chi

## Rydym yn chwilio am arweinydd rhaglenni rhagweithiol a chydweithredol sydd â:

- Phrofiad amlwg o ddylunio a darparu rhaglenni yn y gymuned
- Profiad o weithio mewn neu gyda llywodraeth leol neu sefydliadau'r sector gwirfoddol
- Sgiliau cadarn o ran hwyluso ac ymgysylltu
- Ymwybyddiaeth o ddulliau cydgynghorol a chyfranogol
- Sgiliau rhagorol o ran rheoli prosiectau, a sylw i'r manylion
- Profiad o fframweithiau monitro a gwerthuso
- Gallu i feithrin a chynnal perthnasoedd cydweithredol
- Cymhwyster perthnasol mewn datblygiad cymunedol, polisi cyhoeddus neu faes cysylltiedig
- Sgiliau cadarn o ran cyfathrebu, ar lafar ac ar bapur
- Dealltwriaeth gadarn o faterion cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio
- Gallu i fod yn drefnus iawn a rheoli nifer o flaenoriaethau

Dymunol: profiad o waith sy'n gysylltiedig â Prevent, atal a mynd i’r afael ag eithafiaeth dreisgar (PCVE), tensiynau cymunedol/troseddau casineb/camwybodaeth a thwyllwybodaeth

## Rhinweddau Personol

- Llawn brwdfrydedd dros wella cydlyniant ac integreiddio yn y DU
- Cydweithredol ac yn canolbwyntio ar atebion
- Entrepreneuraidd a rhagweithiol wrth ganfod cyfleoedd
- Ymarferol, pendant a dibynadwy
- Gallu ffynnu mewn amgylchedd prysur sy'n esblygu
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol





# Y Broses o Wneud Cais

**Dyddiad cau: 23.59pm ddydd Llun 12 Ionawr 2026**
**Cyfweliadau cam cyntaf: 2il a 4ydd Chwefror, ar-lein**
**Ail gam cyfweliadau: 13eg Chwefror, ar-lein**

To apply, please submit your CV and cover letter detailing how you meet the person specification to recruitment@belongnetwork.co.uk with the email subject line ‘Application to the role of Programme Lead’.

If you have any questions or would like to arrange an initial, informal discussion about the role, please contact recruitment@belongnetwork.co.uk.





belongnetwork.co.uk

linkedin.com/the-belong-network

twitter.com/BelongNetwork

Elusen gofrestredig: 1180761



belong
THE COHESION AND
INTEGRATION NETWORK

CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND